| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **10 Ionawr, 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Gweithio'n Hyblyg** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd R.H. Wyn Williams** |
| | |

**<u>Cais am adroddiad cynnydd yn nodi'r camau nesaf yn dilyn cwblhau'r cynllun peilot ym Meirionnydd yn Hydref 2011.</u>**

Pwrpas peilot gweithio'n hyblyg Meirionnydd oedd :

1. Sicrhau gwell cyd weithio rhwng staff Iechyd BIPBC a gweithwyr cymdeithasol y Cyngor drwy eu cyd leoli
2. Adnabod arbedion drwy leihau costau trafeilio.

Sefydlwyd 5 canolfan o fewn adeiladau iechyd yn ardal Meirionnydd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Hefyd trefnwyd cysylltiad technegol i ganiatáu'r gweithwyr cymdeithasol i gael mynediad i system RAISE yr Adran. Y canolfannau oedd Ysbyty Alltwen, Ysbyty Blaenau, Ysbyty Tywyn, Meddygfa Bala a Meddygfa Bermo. Roedd gweithwyr hefyd yn gallu gweithio o'i cartrefi drwy RAISE.

Drwy ymgynghori gyda staff gan gynnwys staff iechyd rydym wedi cael cadarnhad bod y peilot wedi bod yn llwyddiannus o safbwynt hybu gwell dealltwriaeth o rôl gweithwyr proffesiynol a bod cyd weithio agosach wedi bod o fantais i ddefnyddwyr a'u gofalwyr.

O safbwynt arbedion ariannol ni adnabuwyd unrhyw fantais er bod gwaith monitro manwl wedi cymryd lle.

Mae'r cyfnod peilot ym Meirionnydd bellach wedi dod i ben ac mae wedi ei dderbyn fel trefniant parhaol. Roedd ymateb y gweithwyr yn bositif ac yn gefnogol.

Bwriad y gwasanaeth yw ymestyn y model ar draws wasanaethau Oedolion. Yr her fydd adnabod arian i sefydlu'r trefniadau cychwynnol. Cafodd y costau cychwynnol y peilot ei ariannu'n gorfforaethol oherwydd y cytundeb i fod yn ardal beilot i'r Cynllun Gweithio'n Hyblyg.

Bellach mae rhaglenni gwaith wedi eu hadnabod i ehangu'r cynllun i Arfon a Dwyfor ond heb eu gweithredu oherwydd ;

- Yr angen i'r Gwasanaeth flaenoriaethu rhaglenni gwaith eraill
- Costau ymestyn y cynllun i'r ddwy ardal arall. Costau sefydlu ym Meirionnydd oddeutu £24,000.

Ym mis Hydref 2012 cyflwynwyd bid am gymorth ariannol tuag at gostau sefydlu drwy drefn gorfforaethol.